# Dail poeth

Yn ôl rhai pobl, maen nhw'n dda ar gyfer helpu gwella rhai afiechydon fel arthritis, anemia a chlefyd y paill ac maen nhw'n helpu gwella rhai poenau yn y corff. Efallai bod hyn yn wir, pwy a ŵyr? Yn ôl pobl eraill, maen nhw'n gwneud te, gwin a chawl blasus iawn. Mae un cwmni'n lapio caws ynddyn nhw hefyd. Beth ydyn nhw? Danadl poethion.

Ydyn, mae danadl poethion yn ddefnyddiol iawn. Yn yr Oesoedd Canol, roedd pobl yn eu defnyddio nhw ar gyfer lliwio defnydd. Heddiw, mae ffermwyr yn eu cymysgu nhw â bwyd eu hanifeiliaid gan gredu y byddan nhw'n helpu'r anifeiliaid i gael cot dda o flew trwchus. Dyna pam mae rhai pobl yn defnyddio siampŵ a chyflyrydd danadl poethion hefyd - er mwyn cael gwallt hyfryd. Nid hynny'n unig, ond mae'n debyg bod siampŵ danadl poethion yn medru cael gwared ar gen ar y pen neu *dandruff* - yn ôl rhai pobl. Mae rhai projectau hyd yn oed yn edrych ar y posibilrwydd o greu defnydd drwy ddefnyddio ffibr wedi ei greu o ddanadl poethion. Dyna i chi blanhigion defnyddiol!

**Cystadleuaeth!**
Tan yn ddiweddar, roedd defnydd arall yn cael ei wneud o ddanadl poethion mewn pentref o'r enw Marshwood yn ne Lloegr. Bob blwyddyn, byddai llawer o'r bobl leol - a phobl o ogledd America, Iwerddon, Gwlad Belg ac Awstralia - yn dod at ei gilydd i gystadlu mewn cystadleuaeth bwyta danadl poethion.

Y gamp oedd bwyta cymaint o ddanadl poethion â phosib mewn un awr, gan gadw at reolau llym.  Dim ond danadl poethion roedd trefnwyr y gystadleuaeth yn eu darparu oedd yn cael eu bwyta - ac roedd y rhain wedi eu torri'n ddwy droedfedd o hyd (tua 0.6 metr). Ni châi'r cystadleuwyr roi unrhyw eli nac unrhyw beth arall o gwmpas eu gwefusau a'u ceg, ond roedd hawl ganddyn nhw i yfed. Yn y gystadleuaeth ei hun, byddai pawb yn tynnu'r dail ac yn eu bwyta am awr gyfan. I orffen, byddai'r trefnwyr yn gosod coesau gwag y danadl poethion benben â'i gilydd er mwyn eu mesur. Llwyddodd rhai i fwyta 48 troedfedd (tua 14 metr a hanner)!

**Y dechrau**
Dechreuodd y cystadlu yn 1986 pan oedd dau ffermwr yn dadlau mewn tafarn ynglŷn â pha un ohonyn nhw oedd â'r danadl poethion hiraf ar ei dir.  "Beth sy'n gwneud i chi feddwl mai gennych chi mae'r danadl poethion hiraf?" gofynnodd y ddynes oedd yn rhedeg y dafarn. "Beth am gael cystadleuaeth i weld gan bwy mae'r danadl poethion hiraf yn yr ardal?" a dyna ddechrau cystadleuaeth y Danadl Poethion Hiraf.

Yna, dair blynedd wedyn, rhoddodd Alex Williams o'r ardal her i'r bobl leol. Roedd ganddo ddanadl poethion hir iawn - tua 15'6" o hyd (tua 4.7 metr) - ar ei dir. "Os dangoswch chi ddanadl poethion sy'n hirach na'r rhai hyn, wna i eu bwyta!" dywedodd. Ac, wrth gwrs, daeth rhywun â danadl poethion hirach i'w dangos iddo a bu'n rhaid iddo eu bwyta! Dyna ddechrau'r gystadleuaeth Bwyta Danadl Poethion.

**Heddiw**
Erbyn hyn, mae'r dafarn lle roedd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal wedi cau am y tro, ond y gobaith yw y bydd perchennog newydd yno cyn bo hir ac y bydd y gystadleuaeth yn dechrau eto. Croesi bysedd!

